**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 22-06-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen yn gadeirydd ar gyfer 2026/2027

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts yn is-gadeirydd ar gyfer 2026/2027

Cynigiwyd ethol y Cynghorydd Gareth Williams yn is-gadeirydd ar gyfer 2026/27. Ni chafwyd eilydd.

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Tudor Jones, Meryl Roberts, a John Brynmor Hughes

Y Cynghorydd Anwen Davies yn cael problemau gyda chyfarpar technoleg ac felly ddim wedi gallu mynychu'r cyfarfod

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 9fed o Fawrth 2026 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 10-02-2026

## 8. PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn nodi bod cais wedi ei dderbyn gan dri o berchnogion cwmnïau tacsi yng Ngwynedd i'r Awdurdod Trwyddedu adolygu uchaf bris teithiau cerbydau tacsi hacni. Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i unrhyw gais am newid yn yr uchaf bris gael ei gyflwyno gan y diwydiant. Adroddwyd bod cais i gynyddu'r uchaf bris wedi ei gymeradwyo yn 2019 ac yn ddiweddarach yn 2022, ond nad oedd newid wedi bod ers hynny. Gwelwyd cynnydd yn  yr uchaf bris am y ddwy filltir gyntaf mewn taith, ond nid oedd cynnydd wedi bod yn y cyfraddau sylfaenol.

Cyfeiriwyd at y ffactorau hynny sydd yn effeithio prisiau tacsi megis cynnydd mewn costau yswiriant cenedlaethol a chynnydd yn yr isafswm cyflog cyfradd dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi tanseilio gallu busnesau bach fel cwmnïau tacsi  i wneud elw. Yn ychwanegol mae sefyllfa economaidd y wlad dros y misoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd, gyda rhagolygon na fydd costau tanwydd yn gostwng yn y dyfodol agos, a chynnydd arall ar y gorwel mewn costau nwy a thrydan. Nodwyd bod cyfradd chwyddiant yn parhau i fod yn uwch na tharged 2% y Llywodraeth ac er bod cyfradd chwyddiant wedi gostwng yn ddiweddar, bod y cynnydd mewn costau tanwydd a  ffactorau geo-wleidyddol yn y Dwyrain Canol yn golygu bod chwyddiant a chostau bwyd sylfaenol yn debygol o godi dros y misoedd nesaf.

Nodwyd bod costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig yn uchel, a chostau blynyddol ynghlwm a thrwyddedu cerbyd tacsi, a chostau bob tair blynedd ynghlwm a thrwyddedu gyrwyr.

Cyfeiriwyd at brisiau Cynghorau eraill ar draws y Gogledd gan amlygu amrywiaeth yng nghyfradd yr uchaf bris o £3.50 i £4.00. Ategwyd bod amryw o gwmnïau oedd wedi cyflwyno cynnig i godi uchaf bris yn cynnig cynyddu'r gyfradd am y filltir gyntaf o £3.60 i £4.00. Er bod cais wedi ei wneud i godi'r gyfradd yn 2022, gwrthodwyd y cynnig oherwydd pryder y byddai pobl oedrannus neu y rhai sy'n fregus, ac sydd yn methu defnyddio ffyrdd eraill o deithio, yn cael eu heffeithio gan y cynnydd ychwanegol yma ynghyd â chynnydd mewn costau byw. Nodwyd hefyd, gyda chynnydd mewn costau cyflogau a chostau cynnal a chadw cerbydau, bod y cwmnïau tacsi yn adrodd nad yw'r costau bellach yn cael eu hadennill drwy godi £3.60 am y filltir gyntaf.

Argymhelliad yr Awdurdod Trwyddedu oedd, o ystyried yr holl ffactorau sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presennol - cynigiwyd fod y prisiau yn cael eu cynyddu fel a ganlyn -

- Cynyddu uchaf bris cyfradd taith un filltir o £3.60 i £4.00 er mwyn bod yn gyson gydag amryw o gynghorau eraill,  ac i gyfarch y cynnydd mewn costau rhedeg tacsi.
- Cynyddu oriau gweithredol tariff hwyr y nos i fod yn weithredol o 21:00 yr hwyr tan 07:00 y bore, yn hytrach na bod yn weithredol o 00:00 hanner nos.
- Gostwng cyfradd cost teithiau tariff hwyr o 60% uwch na'r gyfradd sylfaenol yn ôl i 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol er mwyn cyd - fynd yn gyffredinol gyda chynghorau eraill.

Adroddwyd, petai'r Pwyllgor yn derbyn yr argymhelliad, byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnal ymgynghoriad ar yr argymhelliad am 14 diwrnod, gyda bwriad i'r uchaf bris newydd fod yn weithredol o'r diwrnod y bydd y rhybudd yn dod i ben. Petai gwrthwynebiad i'r cynnig yn dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, byddai'r argymhelliad yn cael ei gyfeirio yn ôl at y Pwyllgor er mwyn i sail y gwrthwynebiad dderbyn ystyriaeth. Ni fydd addasiad i'r uchaf bris hyd nes bydd penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor .

b) Sylwadau yn codi o’r drafodaeth ddilynol:

- Mai newid yn y filltir gyntaf yn unig sydd yma
- Bod y gyfradd sylfaenol heb godi ers 2019

Mewn ymateb i gwestiwn os byddai’r cynnydd yn cael effaith ar gludiant tacsi ysgol, nodwyd bod cytundeb cludiant ysgolion yn cael ei ariannu yn wahanol gyda phrisiau’n cael eu sefydlu yn unol â ffactorau perthnasol - cytundebau ysgolion fel arfer yn cael eu hariannu yn hael ac yn cyfrannu at ffactorau megis cynnal a chadw cerbydau. Cadarnhawyd felly, na fyddai’r argymhelliad yn cael effaith ar gytundebau ysgolion - cynnydd mewn prisiau cerbydau hacni yn unig sydd yn cael ei gynnig yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnig i’r tariff hwyr y nos fod yn weithredol o 21:00 yn hytrach na 00:00 a beth oedd y rhesymeg dros gynnig yr amser yma, nodwyd mai’r diwydiant oedd wedi cynnig 21:00. Adroddwyd bod gan y Pwyllgor y rhyddid i dderbyn yr amser yma neu gynnig amser gwahanol. Ystyriwyd y byddai gweithredu o 21:00 yn fwy proffidiol i’r diwydiant gan y bydd o bosib yn annog mwy o gwmnïau i weithredu gyda’r nos.

Cynigiwyd ac eiliwyd derbyn argymhelliad yr Awdurdod Trwyddedu

Cynigwyd ac eiliwyd gwelliant o dderbyn argymhelliad yr Awdurdod Trwyddedu, ond i’r tariff hwyr y nos fod yn weithredol o 22:00 gan fod 21:00 yn ymddangos yn rhy gynnar.

**PENDERFYNWYD :**

- **Cynyddu uchaf bris cyfradd taith un filltir o £3.60 i £4.00 er mwyn bod yn gyson gydag amryw o gynghorau eraill, ac i gyfarch y cynnydd mewn costau rhedeg tacsi.**
- **Cynyddu oriau gweithredol tariff hwyr y nos i fod yn weithredol o 22:00 yr hwyr tan 07:00 y bore, yn hytrach na bod yn weithredol o 00:00 hanner nos.**
- **Gostwng cyfradd cost teithiau tariff hwyr o 60% uwch na’r gyfradd sylfaenol yn ôl i 50% yn uwch na’r gyfradd sylfaenol er mwyn cyd - fynd yn gyffredinol gyda chynghorau eraill.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.10am a daeth i ben am 10:30am